



# **PROTOCOL COED A WARCHODIR**

**2018**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1. Mae coed Abertawe'n darparu ased enfawr a gwerthfawr ac yn ei gwneud yn un o ardaloedd trefol gwyrddaf Cymru. Y tu hwnt i'r ddinas, mae coed yn ffurfio rhan bwysig o gymeriad amrywiol tirwedd y sir. Mae oddeutu 18.8% o'r sir wedi'i orchuddio â chanopi coed, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sef 16.8%. Mae canopi coed yn gorchuddio 19.8% o ardaloedd trefol yn Abertawe (yn seiliedig ar ffigurau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)). Yn y trefi a'r pentrefi cyfagos, mae coed yn ffurfio tirnodau a nodweddion tirwedd lleol pwysig ac yn ychwanegu'n sylweddol at leoliad adeiladau pwysig ac at greu ymdeimlad o le.

1.2 Mae coed a choetiroedd yn cyfrannu'n sylweddol at dirwedd amrywiol y ddinas a'r sir drwy wneud y canlynol:

- Darparu lleoliadau gwyrdd hyfryd i fyw a gweithio ynddynt
- Hidlo sŵn
- Cynnal cysylltiad â'r amgylchedd naturiol
- Darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer bywyd gwylt
- Darparu cysgod rhag yr haul, y gwynt a'r glaw
- Ailgylchu'r aer rydym yn ei anadlu
- Gwaredu gronynnau niweidiol o'r awyr
- Helpu i ddal carbon
- Lliniaru effaith datblygu

1.3 Mae'r Protocol Coed a Warchodir hwn yn amlinellu sut gall y cyngor ymgymryd â'i ddyletswyddau mewn perthynas â choed a warchodir, h.y. y coed hynny sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed neu sy'n gymwys i'w gwarchod mewn Ardal Gadwraeth. Amlinellir cefndir deddfwriaethol y dyletswyddau hyn yn Atodiad A.

1.4 Mae cyfraniad coed wrth wraidd egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf LICD; maent yn gwella lles economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe drwy gyfrannu at y saith nod llesiant. Ynghyd â'r manteision amlwg ac sydd wedi'u dogfennu'n dda y mae coed yn eu darparu, maent hefyd yn cyfrannu llawer o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn aml yn cael eu hanghofio neu nad ydynt yn cael eu hyrwyddo'n dda. Amlinellir y manteision hyn yn Atodiad B a bydd y rhain yn ffurfio sail polisi yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau ecosystem.

## 2.0 Nodau'r Protocol Coed a Warchodir

2.1 Nodau cyffredinol y **Protocol Coed a Warchodir** yw sicrhau y cedwir coed pwysig yn Ninas a Sir Abertawe, gan sicrhau drwy wneud hyn y cynhelir eu cyfraniad at amwynder. Ymgorfforir y nodau hyn yn y polisiâu a amlinellir isod sy'n ymdrechu i:

- Asesu coed wrth iddynt ddod o dan fygythiad a'u gwarchod fel bo angen yn unol â'n dyletswydd statudol
- Sicrhau bod **Gorchmynion Cadw Coed** yn rhoi diogelwch addas yn ôl eu bwriad
- Ymdrin â cheisiadau am waith coed yn deg ac yn gyson
- Cymryd camau gorfodi lle bo angen i weithredu i atal gwaith anawdurdodedig pellach

2.2 Mae **Gorchmynion Cadw Coed** (GCC) yn gwneud y gweithrediadau canlynol yn droseddau: cymynu, difrigo,ocio, difrodi neu ddinistrio'n fwriadol goeden a warchodir heb ganiatâd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Prif swyddogaeth GCC yw diogelu cyfraniad coed at amwynder ardal.

2.3 Mae pedwar math o GCC:

- **Unigol:** dynodir pob coeden yn unigol
- **Grŵp:** nifer a rhywogaeth benodol o fewn grŵp o goed
- **Ardal:** yr holl goed a nodir (gall hyn gynnwys yr holl rywogaethau) sy'n tyfu pan gaiff y gorchmyn ei wneud
- **Coetir:** Yr holl goed (gan gynnwys coed ifanc) sy'n tyfu yn yr ardal honno naill ai cyn neu ar ôl i'r gorchmyn gael ei wneud

2.4 Bydd gan goed sy'n tyfu mewn Ardal Gadwraeth ddiogelwch tebyg i'r diogelwch sydd gan goed GCC. Gwarchodir pob coeden â diamedr boncyff o 75mm sydd 1.5m uwchben lefel y tir mewn Ardaloedd Cadwraeth o dan Adran 211 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd). Mae unrhyw waith arfaethedig i goed o'r fath yn gofyn i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor chwe wythnos cyn i'r gwaith hwnnw ddechrau. Gellir gweld mapiau o'r 31 o ardaloedd cadwraeth yn Ninas a Sir Abertawe yn <https://www.abertawe.gov.uk/mynegaiardaloeddcadwraeth>

2.5 **Gorchmynion Cadw Coed Newydd**

**Polisi 01**

**Caiff yr holl safleoedd a choed eu hasesu'n unol â'r meini prawf canlynol:**

**a) Os yw'r coed o werth amwynder cyhoeddus ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Yn gyffredinol, golyga hyn fod y coed yn weladwy o leoliad cyhoeddus a'u bod yn ychwanegu gwerth at y strydlyn neu'r dirwedd leol. Fodd bynnag, ystyrir hefyd dystiolaeth o werth diwylliannol, hanesyddol, bywyd gwyllt neu brinder cryf;**

**b) Byddai colli coed neu ddifrod i goed yn effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd lleol a'i fwynhad gan y cyhoedd, ac mae perygl sylweddol y bydd hyn yn digwydd os na chyflwynir gorchmynion cadw coed; ac**

**c) Mae'r coed mewn iechyd a chyflwr gweddol dda, mae ganddynt ddisgwyliad oes rhesymol ac nid yw'n hysbys eu bod yn achosi unrhyw ddifrod i adeiladau.**

2.5.1 O dan ddarpariaethau Adran 197 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y cyngor ddyletswydd i warchod coed a choetiroedd dethol at ddiben amwynder. Gan fod y cyngor yn ceisio gwarchod coed a choetiroedd ar ran y cyhoedd, dylai fod gan y coed neu'r choetiroedd dethol ryw fantais i amwynder cyhoeddus. Er mai effaith weledol coed a choetiroedd ar eu hamgylchiadau cyfagos yw'r brif ystyriaeth, gellir ystyried hefyd eu gwerth ecolegol, hanesyddol neu brinder. Coed dethol eraill yw'r rheiny y mae angen iddynt gael eu plannu fel rhan o ganiatâd cynllunio i wneud yn iawn am goed a gollwyd oherwydd y broses ddatblygu neu wrth greu lle.

2.5.2 Dogfen gyfreithiol yw GCC sy'n ei wneud yn drosedd i gymynu, difrigo, tocio, diwreiddio, difrodi neu ddinistrio coeden yn fwriadol a heb ganiatâd. Gall unrhyw un sy'n dinistrio coeden a warchodir neu ei thorri i lawr yn fwriadol dderbyn dirwy gwerth hyd at £20,000 (swm cyfredol yn 2016) os caiff ei euogfarnu mewn Llys Ynadon. Gellir hefyd roi dirwy o dan **Ddeddf Elw Troseddau, 2002**. Er enghraifft, derbyniodd perchennog tŷ yn Bournemouth gyfanswm dirwy o £125,000 gan ystyried y cynnydd yng ngwerth ei dŷ ar ôl iddo drefnu i dorri un goeden i lawr. Nid yw'r ffaith bod GCC wedi cael ei gyflwyno'n golygu mai'r cyngor sy'n gyfrifol am y coed; mae'r ddyletswydd gofal yn aros gyda pherchennog y goeden. Amlinella polisi 04 ymagwedd y cyngor at dramgwyddo GCC.

2.5.3 Er bod gan y cyngor ddyletswydd i warchod coed a choetiroedd dethol, mae angen hefyd i gydbwyso gwerth y goeden/coed i'r dirwedd yn erbyn y rhywogaeth, y maint, y potensial twf a'r berthynas ag adeiladau a gerddi cyfagos. Mae'n bwysig i sicrhau na ddefnyddir GCC i gynnal problemau sylweddol sy'n codi oherwydd agosrwydd coed mawr at adeiladau. Amlinella polisi 03 y sefyllfaedd lle bydd y cyngor yn ystyried gwaredu neu docio coed a warchodir.

2.5.4 Bydd gan y cyngor ymagwedd strategol a rhagweithiol at greu GCC newydd lle nodir y coed a'r choetiroedd hynny sy'n cyfrannu fwyaf at amwynder cyhoeddus, a'u gwarchod lle bo'n briodol.

2.5.5 Bydd ceisiadau ad-hoc am GCC newydd yn parhau i gael eu hystyried yn dilyn cyngor diweddar gan Lywodraeth Cymru fel y'i hamlinellir yn '*GCC: Arweiniad ar y gyfraith ac arfer da*'. I sicrhau y defnyddir adnoddau'r cyngor i'r effaith orau, erys lefel y risg i'r goeden/coed oherwydd torri, tocio neu ddifrod yn dilyn gwaith adeiladu er enghraifft, yn ffactor pwysig wrth benderfynu a ddylid rhoi GCC. Derbynnir bod llawer o berchnogion tir yn rheoli'u coed mewn ffordd gyfrifol ac, yn ôl cyngor Llywodraeth Cymru, nid yw'n briodol defnyddio GCC lle rheolir coed a choetiroedd yn gyfrifol. Ystyrir bod y cyngor yn berchennog coed cyfrifol yn hyn o beth.

2.5.6 Ystyrir coed ar safleoedd datblygu posib, gan gynnwys dyraniadau'r Cynllun Datblygu, rhandiroedd mewnlenni a safleoedd cyn cyflwyno cais, i'w gwarchod wrth i unrhyw fgygythiad ddod i'r amlwg.

2.5.7 I gynorthwyo'r broses gwneud penderfyniadau, caiff coed eu hasesu lle bo'n briodol gan ddefnyddio'r dull gwerthuso coed ar gyfer gorchmynion cadw a gydnabyddir gan y diwydiant. Ni chynhwysir coeden nad yw'n bodloni'r safon angenrheidiol fel y'i hamlinellir yn y fethodoleg mewn gorchymyn cadw oni bai ei bod yn rhan o goetir ac yn cael ei hystyried fel rhan o GCC coetir.

2.5.8 Yn sgîl derbyn Hysbysiad o Fwriad dan Adran 211 i gael gwared ar goeden gymwys sy'n tyfu mewn Ardal Gadwraeth neu i wneud gwaith i'r goeden hon, bydd y cyngor fel arfer yn cyflwyno GCC os bodlonir y meini prawf uchod yn unig ac yn enwedig lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith groes sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

2.5.9 Ni fydd y cyngor fel arfer yn cyflwyno GCC ar goed y mae'n gyfrifol am eu rheoli, oni bai bod y coed yn bodloni'r gofynion uchod a'u bod mewn perygl.

## **2.6 Adolygu Gorchmynion Cadw Coed presennol**

### **Polisi 02**

**Bydd y cyngor yn parhau i adolygu ei Orchmynion Cadw Coed presennol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r agweddau cyfreithiol, amwynderau cyhoeddus a defnydd tir cyfredol.**

2.6.1 Mae'r cyngor yn adolygu ei hen GCC yn achlysurol, sy'n dyddio'n ôl i 1956. Mae nifer o'r gorchmynion hyn yn cynnwys dynodiadau 'ardal' neu 'blanced' sy'n berthnasol i'r holl goed cymwys a oedd yn bresennol ar ddarn penodol o dir pan gafodd y gorchymyn ei gyflwyno. Ni warchodir unrhyw goed sydd wedi cael eu plannu, neu sydd wedi hadu'n naturiol, ers i'r gorchymyn gael ei gyflwyno. I sicrhau bod pob GCC yn briodol, yn berthnasol, yn gyfoes ac yn orfodadwy, bydd y cyngor yn parhau i flaenoriaethu'r broses adolygu drwy ganolbwyntio ar y mathau canlynol o orchmynion sy'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Coed nad ydynt yn cael eu gwarchod yn ddigonol o'u cymharu â'r rheoliadau sydd wedi'u diweddarau (cyn 1975);
- Dynodiadau ardal;
- Diffiniadau grwpiau anghywir;
- Safleoedd sydd wedi'u datblygu;
- Anghywirdebau.

## 2.7 Gwaith i Goed a Warchodir

### **Polisi 03**

**Rhoddir caniatâd i dorri coed a warchodir i lawr lle bydd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:**

**a) Mae tystiolaeth gref y byddai'r goeden, wrth ystyried y tebygolrwydd, yn cyfrannu at ddifrod i adeilad; neu**

**b) Byddai gwaredu coeden yn fanteisiol at ddiben rheolaeth goedwrol<sup>(1)</sup> neu goedyddiaeth<sup>(2)</sup> dda, a byddai o fudd i ddatblygiad tymor hir coed cyfagos o well ansawdd; neu**

**c) Mae gan y goeden ddisgwyliad oes byr oherwydd afiechyd; neu**

**ch) Mae'r goeden mewn perygl o achosi niwed neu ddifrod i bobl neu eiddo lle ni ellir lliniaru'r perygl yn rhesymol drwy docio'r goeden.**

**Rhoddir caniatâd i docio coed a warchodir lle bydd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:**

**i) Bydd y gwaith yn gwella cyfansawdd neu hirhoedledd y goeden; neu**

**ii) Mae angen gwneud y gwaith i atal y goeden rhag difrodi'r isadeiledd a'r adeiladau cyfagos; neu**

**iii) Ni fydd y gwaith yn effeithio ar amwynder cyhoeddus ac ni fydd yn niweidio iechyd tymor hir y goeden.**

*1. Tyfu a meithrin coed fel cnwd.*

*2. Meithrin a rheoli coed amwynderau.*

2.7.1. Er bod y cyngor yn cydnabod yr angen i gadw arwynebedd presennol y coed, bydd achlysuron lle bydd modd cyfiawnhau gwaredu coed. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r sefyllfaoedd lle gall gwaredu coed fod yn dderbyniol.

2.7.2. Mae'r prif sefyllfaoedd lle gellir cyfiawnhau gwaredu coed yn cynnwys y canlynol:

- mae tystiolaeth gref bod coeden yn achosi difrod i adeilad
- byddai gwaredu'r goeden o fudd i ddatblygiad tymor hir coed cyfagos
- mae gan y goeden ddisgwyliad oes cyfyngedig; neu
- mae perygl iddi achosi niwed neu ddifrod i bobl neu eiddo na ellir ei lliniaru drwy docio.

Nid oes angen cyflwyno cais ffurfiol ar gyfer coed a warchodir sydd wedi marw, sydd yn y broses o farw neu sy'n beryglus, er bod angen rhoi rhybudd yn ysgrifenedig 5 niwrnod ymlaen llaw, ac eithrio'r sefyllfaoedd mwyaf brys. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n rhaid i berchennog y goeden fod yn gallu dangos bod y goeden yn y cyflwr y mae'n honni. Lle gwaredir coeden sydd wedi marw, sydd yn y broses o farw, neu sy'n beryglus, mae gan y tiffeddiannwr ddyletswydd i blannu coeden yn ei lle.

**2.7.3. Ni roddir caniatâd fel arfer i waredu coed oherwydd cwmp y dail, cwmp y ffrwythau, baw adar, melwlith gan bryfed gleision neu am eu bod yn ymyrryd â signalau teledu/paneli solar.** Wrth ddod i benderfyniad, bydd y cyngor yn ystyried gwerth amwynder cyhoeddus, rhywogaeth, maint, oed a chyflwr, trwch y canopi, agosrwydd at yr adeilad ac wynebwydd yr adeilad a'r ardd mewn perthynas â'r goeden.

2.7.4 At ddiben y polisi hwn, coeden a warchodir yw un sy'n destun GCC neu goeden gymwys sy'n tyfu mewn Ardal Gadwraeth.

2.7.5 Caniateir tocio am resymau eraill weithiau, ond dim ond os yw'r goeden yn gallu goddef y gwaith heb iddo effeithio'n ormodol ar ei hiechyd, ei hirhoedledd neu ei gwerth ar y dirwedd. Mae'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried yn cynnwys amwynder cyhoeddus, rhywogaeth, maint, oed, a chyflwr.

2.7.6 Ni fydd y cyngor fel arfer yn cefnogi tocio coed a warchodir nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod, er enghraifft, y rheiny y deöllir iddynt fod yn broblem oherwydd cwmp y dail, y brigau neu'r ffrwythau, baw adar, melwlith, ymyrraeth â signalau teledu neu i hwyluso gosod paneli solar.

2.7.7 Disgwylir i glefyd gwywo coed ynn, a achosir gan *Hymenoscyphus fraxineus*, heintio'r rhan fwyaf o goed ynn ar y dirwedd. I atal gwaredu coed heintrydd dan eithriad y rheoliadau GCC sy'n gysylltiedig â choed sydd yn y broses o farw, bydd gan y cyngor ymagwedd ragofalus. Disgwylir i goed gwrthiannol ddangos arwyddion o'r clefyd ond mae'n hynod bwysig i'w cadw. Gan fod gwerth gweddilliol gan goed ynn sy'n dirywio oherwydd clefyd gwywo coed ynn, cymerir camau gweithredu'n unol ag arweiniad cyfredol y llywodraeth.

2.7.8 Lle bod angen plannu coeden yn lle un a dorrwyd, dylai'r goeden fod o faint a rhywogaeth addas, gyda'r lleoliad wedi'i gytuno cyn i'r hen goeden gael ei gwaredu.

## 2.8 Gorfodi

### Polisi 04

**Pan fydd tystiolaeth ddigonol bod y gyfraith wedi'i thorri mewn perthynas â choeden a warchodir (un sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed neu goeden gymwys sy'n tyfu mewn Ardal Gadwraeth), bydd y cyngor yn cychwyn ar weithrediadau erlyniad troseddol, ar yr amod bod hyn o fudd i'r cyhoedd.**

**Lle na fydd erlyniad yn gam gweithredu addas, bydd y cyngor yn ystyried gorfodi plannu coed yn lle'r rhai a gollwyd a/neu waith adfer dan bwerau cynllunio.**

2.8.1 Mae'r polisi hwn yn esbonio sut a phryd y bydd y cyngor yn gorfodi yn erbyn y canlynol: difrodi neu gymynu coed a warchodir gan GCC neu wneud gwaith anawdurdodedig iddynt; difrodi neu gymynu coed mewn Ardal Gadwraeth neu wneud gwaith anawdurdodedig iddynt; a thorri mewn unrhyw ffordd amodau cynllunio sy'n berthnasol i gadw a gwarchod coed.

2.8.2 Gwarchodir coed pan fyddant yn cael eu gwneud yn destun GCC neu pan fyddant yn tyfu mewn ardaloedd cadwraeth (gan ddibynnu ar eithriadau penodol). Yn gyffredinol, mae'n drosedd i gymynu, diwreiddio, difrigo, tocio neu ddifrodi neu ddinistrio'n fwriadol goeden a warchodir heb ganiatâd gan y cyngor fel Awdurdod Cynllunio Lleol.

2.8.3 Yn achos coed a warchodir gan GCC, yn gyffredinol, mae'n rhaid cael caniatâd gan y cyngor ar gyfer unrhyw waith i'r coed yn sgîl cyflwyno cais ffurfiol. Gall unrhyw ganiatâd fod yn ddibynnol ar amodau ac mae hawl gennych i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio <https://gov.wales/topics/planning/appeals/appeal-guidance-and-information/planning-appeals/?skip=1&lang=cy> yn erbyn gwrthod caniatâd neu i delerau amod.

2.8.4 Pan fydd coed yn tyfu mewn Ardal Gadwraeth, mae'n rhaid rhoi chwe wythnos o rybudd i'r cyngor o unrhyw gynnig i wneud gwaith i'r coed. Yn ystod y cyfnod hwn o chwe wythnos, gall y cyngor ddewis i beidio â gwrthwynebu'r gwaith neu gyflwyno GCC i atal y gwaith hwnnw rhag cael ei wneud. Os na fydd y cyngor yn cymryd camau gweithredu o fewn chwe wythnos, gall y gwaith ddechrau fel y'u hysbyswyd.

2.8.5 Mae dwy drosedd yn berthnasol i goed a warchodir gan GCC a'r rheiny sydd mewn Ardaloedd Cadwraeth:

i) Bydd unrhyw un sy'n cymynu, yn diwreiddio, yn dinistrio'n fwriadol, yn tocio, yn difrigo, neu'n difrodi'n fwriadol goeden mewn ffordd sy'n debygol o'i dinistrio yn agored i ddirwy hyd at £20,000 os caiff ei euogfarnu yn y Llys Ynadon neu ddirwy ddiderfyn yn Llys y Goron. Mae'r llysoedd wedi penderfynu nad yw'n angenrheidiol i goeden gael ei difodi er mwyn iddynt ystyried ei bod wedi cael ei "dinistrio" at ddibenion y ddeddfwriaeth. Mae'n ddigonol i'r goeden fod wedi ei gwneud yn anaddas i'w defnyddio fel amwynder.

ii) Bydd unrhyw un sy'n gwneud gwaith i goeden nad yw'n debygol o'i dinistrio yn agored i ddirwy hyd at £2,500 os caiff ei euogfarnu yn y Llys Ynadon.



2.8.6 Yn ogystal â gwneud gwaith anawdurdodedig i goed a warchodir, mae'n drosedd i achosi neu ganiatáu gwaith felly.

2.8.7 Os honnir bod y gwaith wedi'i eithrio rhag gofynion arferol y ddeddfwriaeth, cyfrifoldeb y diffynnydd yw hi i brofi bod yr eithriad yn berthnasol.

2.8.8 Pan gaiff coeden ei gwaredu yn groes i'r ddeddfwriaeth, neu oherwydd ei bod wedi marw neu yn y broses o farw neu mae'n beryglus, bydd gan y tirlfeddiannwr ddyletswydd i blannu coeden yn ei lle, sydd o faint a rhywogaeth addas, yn yr un lleoliad cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib (oni bai y bydd y cyngor yn hepgor y gofyniad hwnnw). Yna, bydd y goeden newydd yn derbyn yr un diogelwch â'r goeden a gollwyd. Os yw'r tirlfeddiannwr yn methu cydymffurfio â'r gofyniad hwn, gall y cyngor gyflwyno Hysbysiad Ailblannu Coeden o fewn cyfnod o bedair blynedd i sicrhau y cydymffurfir â hwn. Gellir apelio yn erbyn Hysbysiad Ailblannu Coeden i'r Arolygiaeth Gynllunio.

## Atodiad A: Cefndir Deddfwriaethol

A.1 Mae gan y cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried coed o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

### A.2 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) Adrannau 197 a 198

A.2.1 Er mwyn cadw coed a choetiroedd a sicrhau yr ystyrir coed yn cyflawn wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd. Mae gan y cyngor ddyletswydd i ystyried yr holl goed yn y broses gynllunio ac i sicrhau, lle bynnag y bo'n briodol, y gwneir darpariaeth ddigonol ar gyfer cadw neu blannu coed, wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad, drwy osod amodau; a gwarchod coed gyda Gorchmynion Cadw Coed lle nodir bygythiadau eraill.

### A.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol(Cymru) 2015 (Deddf LICD)

A.3.1 Mae'n rhaid i'r cyngor allu dangos sut y mae'n ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'i gyfraniad at y saith nod llesiant (yn enwedig Cymru gydnerth) mewn perthynas â chadw a gwaredu coed.

### A.4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

A.4.1 Ym mis Mawrth 2016, daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i rym. Ei nod yw cyflwyno deddfwriaeth i helpu Cymru i sicrhau ecosystemau iach, cydnerth a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol, wrth barhau i gyflawni'r heriau o greu swyddi, tai ac isadeiledd. Mae'r rhannau canlynol yn arbennig o berthnasol:

**a) Rhan 1 - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:** Mae'r angen i fabwysiadu ymagwedd fwy integredig at reoli'n hadnoddau naturiol er mwyn cyflawni cynaliadwyedd tymor hir yn ganolog i'r ddeddf. Mae'n darparu fframwaith i sicrhau y bydd rheoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau.

Mae'n amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer Llywodraeth Cymru, CNC, awdurdodau lleol a'r holl awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Dyletswydd Bioamrywiaeth newydd i helpu i wrthdroi'r dirywiad a sicrhau gwydnwch tymor hir bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon yn gysylltiedig â nod gwydnwch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae hi wedi'i thanategu ganddo. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn gofyn i awdurdodau lleol *'geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, cyhyd ag y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'*. Mae'r ddeddf hefyd yn gofyn i'r cyngor adrodd i Lywodraeth Cymru am yr hyn y mae ef wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd newydd bob tair blynedd a disgwylir yr adroddiad cyntaf ar ddiwedd 2019.

**b) Rhan 2 - Newid yn yr Hinsawdd:** Mae hon yn darparu'r pwerau i Weinidogion Cymru osod targedau statudol i leihau allyriadau, gan gynnwys lleihad o o leiaf 80% mewn allyriadau erbyn 2050 a chyllidebu carbon i gefnogi'u cyflwyno. Mae hyn yn amlinellu llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio ac yn darparu sicrwydd ac eglurder ar

gyfer busnes a buddsoddiad. Bydd ystyried cadw a phlannu coed yn helpu i fodloni gofynion y rhan hon o'r ddeddf.

## **A.5 Polisi cenedlaethol: Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10, 2018 (Ymgynghoriad drafft)**

A.5.1 Mewn perthynas â choed, coetiroedd a gwrychoedd, mae Polisi Cynllunio Cymru'n dweud:

*5.61 Mae coed, coetiroedd, coedlannau a gwrychoedd yn bwysig iawn ar gyfer bioamrywiaeth. Maent yn gynefinoedd cysylltiol pwysig ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr ehangach at nodweddion y dirwedd, ansawdd aer, hamdden a chymedroli hinsawdd leol. Maent hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gloi carbon a gallant ddarparu ffynhonnell ynni a deunyddiau adeiladu cynaliadwy.*

*5.62 Dylai awdurdodau cynllunio warchod coed, gwrychoedd, grwpiau o goed/llwyni a choetiroedd lle bod ganddynt werth ecolegol neu eu bod yn cyfrannu at nodweddion neu amwynder ardal neu'n cyflawni swyddogaeth isadeiledd gwyrdd fuddiol. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried pwysigrwydd coetir brodorol a choed gwerthfawr a hefyd, lle bo'n briodol, strategaethau coed awdurdodau lleol neu ganllawiau cynllunio atodol.*

*5.63 Mae coetiroedd hynafol sy'n lled-naturiol a choed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth unigol yn adnoddau naturiol anadnewyddadwy ac, yn aml, mae ganddynt werth sylweddol i'r dirwedd a'r fioamrywiaeth a gwerth diwylliannol. Dylid rhoi lefelau ychwanegol o ddiogelwch i goed a choetiroedd felly a dylid gwneud pob ymdrech i atal gweithrediadau a all achosi niwed iddynt neu arwain at eu colli'n ddiangen. Yn achos safle a gofnodwyd ar y Rhestr o Goetiroedd Hynafol, dylai awdurdodau ymgynghori â CNC. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd roi sylw i'r Rhestr o Goed Hynafol.*

*5.64 Dylid cadw a phlannu coed a gwrychoedd, lle bo'n briodol, drwy bolisiau sy'n benodol yn lleol a thrwy osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio a/neu drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed (GCC). Dylent hefyd fod wedi'u hymgorffori mewn asesiadau a chynlluniau isadeiledd gwyrdd.*

A.5.2 Isadeiledd gwyrdd, fel y cyfeirir ato uchod, yw'r rhwydwaith o leoedd gwyrdd (a glas/dŵr), coridorau a nodweddion amgylcheddol aml-dddefnydd sy'n amgylchynu ac yn ffurfio aneddiadau a chefn gwlad ehangach y sir ac yn treiddio trwyddynt. Dylid ystyried isadeiledd gwyrdd fel adnodd sengl i'w warchod, ei wella a'i reoli i gyflwyno amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol, economaidd ac ansawdd bywyd i'r gymuned.

A.5.3 Caiff Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd arfaethedig ar gyfer Abertawe ei mabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Abertawe a bydd hi'n darparu fframwaith strategol ar gyfer diogelwch, hygyrchedd a gwelliant manau agored presennol ac yn cynyddu darpariaeth lle mae diffyg ar hyn o bryd.

## A.6 Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLI) 2010-2025 (Fersiwn Adnau)

A.6.1 Amlinellir polisi cyffredinol y cyngor mewn perthynas â gwarchod coed rhag datblygiad yn y CDLI, sy'n nodi'r canlynol:

### **ER 11: COED A DATBLYGIAD**

Fel arfer, ni chaniateir datblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar goed, coetiroedd a gwrychoedd sydd â gwerth amwynder cyhoeddus, treftadaeth naturiol/diwylliannol neu sy'n darparu gwasanaethau ecosystem pwysig.

Mae coetiroedd hynafol, safleoedd coetiroedd hynafol, coed hynafol a choed hynod yn haeddu gwarchodaeth benodol ac fel arfer ni chaniateir datblygiad a fyddai'n arwain at y canlynol:

- i. Darnio neu golli coetir hynafol;
- ii. Colli coeden hynod neu goeden hynafol;
- iii Niweidio tir, colli isdyfiant neu darfu ar dir ardal o goetir hynafol neu ardal gwarchod gwreiddiau coed hynafol neu goed hynod;
- iv. Lleihau nifer y cynefinoedd lled-naturiol eraill sydd gerllaw coetir hynafol yn yr ardal;
- v. Newid sylweddol i ddefnydd y tir sydd gerllaw coetir hynafol;
- vi. Cynnydd yn natguddiad tebygol coetir hynafol neu goeden hynafol neu hynod i lygredd aer, dŵr neu olau o'r ardal o'u hamgylch.
- vii. Newid yr hydroleg mewn ffordd a allai effeithio ar goetir hynafol, coed hynafol neu goed hynod;
- viii. Dinistrio cynefinoedd cysylltiol pwysig sy'n gysylltiedig â choetir hynafol;
- ix. Diraddio nodweddion archeolegol neu hanesyddol pwysig mewn coetir hynafol neu nodweddion sy'n gysylltiedig â choed hynafol neu goed hynod;
- x. Dinistrio Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS); a/neu
- xi. Ddatblygiad o fewn 15m o goetir hynafol

*2.9.72 Ar draws y sir, amcangyfrifir bod dros 50,000 o goed yn cael eu gwarchod gan orchmynion unigol/grŵp, gorchmynion ardal neu orchmynion coetir. Mae hyn yn ogystal â choed mewn Ardaloedd Cadwraeth. Gwarchodir gwrychoedd gan ddeddfwriaeth ar wahân.*

*2.9.71 I gydnabod pwysigrwydd coed i'r sir, mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod coed addas, boed wedi'u gwarchod gan ddeddfwriaeth neu beidio, yn cael eu cadw a'u gwarchod ar unrhyw safle datblygu. Lle y bo'n briodol, bydd amodau cynllunio neu Orchmynion Cadw Coed yn cael eu defnyddio i warchod coed a choetiroedd pwysig.*

*2.9.72 Bydd angen i gynigion datblygu ar safleoedd sy'n cynnwys, neu sydd gerllaw coed, ddarparu arolwg coed ac asesiad effaith ar goedyddiaeth i gefnogi cais cynllunio. Lle y bo'n angenrheidiol, bydd angen hefyd ddatganiad dull coedyddiaeth a chynllun gwarchod coed. Mae'n rhaid i'r dogfennau hyn fod yn unol â Safon Prydeinig BS5837 "Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu – Argymhellion", a dylid ystyried effaith tymor hir y*

*datblygiad arfaethedig ar y coed wrth iddynt dyfu a, lle y bo'n bosib, geisio osgoi gwrthdaro yn y dyfodol, megis gwrthdaro a achosir gan frigau sy'n gorchhongian, yn cysgodi neu'n gorchuddio.*

*2.9.73 Fel arfer, rhoddir caniatâd cynllunio pan fydd y coed ar y safle wedi'u gwarchod yn llawn yn y tymor hir, neu os bydd coed newydd yn cael eu plannu pan nad oes modd osgoi cael gwared ar goeden neu goed yn unig. Byddai gwaredu coed ond yn dderbyniol pan na fydd unrhyw leoliad amgen arall ar gyfer y datblygiad; a bydd yr angen am y datblygiad a'r buddion a geir ohono, yn gorbwyso pwysigrwydd y goeden neu'r coed.*

*2.9.74 Rhaid cytuno ar gynllun i ailblannu coed, gan gynnwys manylion plannu ac ôl-ofal, cyn dechrau'r gwaith datblygu. Caiff coed newydd eu plannu'n unol â Safon Brydeinig BS8545 'Coed: o feithrin i annibyniaeth yn y dirwedd – Argymhellion'. Caiff Gorchmynion Cadw Coed (GCC) eu gosod ar goed newydd fel arfer.*

*2.9.75 Caiff Amodau Cynllunio, Cyfarwyddiadau Erthygl 4 a/neu Rwymedigaethau Cynllunio eu defnyddio i sicrhau unrhyw fesurau lliniaru/digolledu/gwella angenrheidiol mewn perthynas â choed a chynigion datblygu.*

*2.9.76 Bydd plannu coed newydd neu blannu at ddibenion lliniaru yn cael ei gynllunio i gyrraedd aeddfedrwydd ac i sicrhau bod cyfraniad parhaol at amwynderau gydag effeithiau negyddol dibwys. Bydd cynlluniau tirwedd newydd yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn "Trees in the Townscape: A Guide for Decision Makers" a gellir ei gyflwyno gan ddefnyddio'r arweiniad yn "Trees in Hard Landscapes: A Guide for Delivery".*

*2.9.77 Mae coetir hynafol wedi'i leoli ar dir sydd wedi cael gorchudd coedwigol di-dor ers o leiaf 1600 OC. Mae'n adnodd gwerthfawr ac unigryw. Gan fod coetir hynafol wedi bod ar y dirwedd ers llawer o ganrifoedd, mae'n llawn bywyd gwyllt ac mae'n fwy tebygol o gefnogi rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth ac i gynnwys nodweddion arbennig o bwys ar gyfer bioamrywiaeth. Mae ef hefyd yn fwy tebygol o gynnwys nodweddion o bwys hanesyddol ac archeolegol. Mae eu prinder a'u pwysigrwydd yn golygu y dylid gwarchod yr ardaloedd hyn. Lle bynnag y bo modd, dylid manteisio ar bob cyfle i adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol a phlannu coed brodorol.*

*2.9.78 Dangosir yr holl ardaloedd o Goetir Hynafol ar adeg llunio'r cynllun ar y Map Cyfyngiadau. Fodd bynnag, rhestr dros dro yn unig yw hon a bydd angen i bob safle datblygu sy'n cefnogi coetir gael ei asesu ar gyfer statws Coetir Hynafol. Ymgynghorir â CNC am unrhyw gynigion a allai arwain at weithrediadau niweidiol posib.*

*2.9.79 Coeden hynafol yw un sydd wedi byw heibio aeddfedrwydd ac sy'n hen neu'n oedrannus. Efallai nad yw coeden hynod yn hen ond, oherwydd ei*

*hamgylchedd neu ei phrofiadau oes, mae wedi datblygu nodweddion gwerthfawr coeden hynafol. Mae coed hynod a hynafol o'r pwys mwyaf oherwydd eu prinder a'u swyddogaeth o fewn ecosystem. Yn aml, mae gan goed hynod a hynafol arwyddocâd lleol neu genedlaethol, o ganlyniad i'w hoedran, eu maint neu eu cyflwr. Maent hefyd yn bwysig ar gyfer cynnal amrywiaeth o rywogaethau a warchodir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.*

*2.9.80 Nid oes rhestr gynhwysfawr o Goed Hynafol a Choed Hynod yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd yr arolwg coed angenrheidiol i gefnogi cynigion datblygu yn manylu a yw safle'n cynnwys neu gerllaw unrhyw goed y gellid eu hystyried i fod yn hynafol neu'n hynod.*

*2.9.81 Mae Rhywogaethau Anfroddol Ymledol yn anifeiliaid, planhigion neu organebau eraill sydd â'r gallu i ymledu, gan achosi difrod i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'r ffordd yr ydym ni'n byw. Cyfeirir atynt mewn deddfwriaeth bresennol. Os oes rhywogaethau anfroddol ymledol yn bresennol yn y safle datblygu neu o'i amgylch, dylid cymryd camau priodol i'w rheoli neu gael gwared arnynt cyn dechrau ar unrhyw ddatblygiad a gymeradwywyd. Lle rhoddir caniatâd cynllunio, bydd yn destun amodau a rhwymedigaethau cynllunio priodol er mwyn sicrhau y cymerir camau gwarchod, monitro, lliniaru, digolledu a rheoli addas.*

### B.1 Manteision Economaidd:

- Cynyddu gwerth eiddo 5-18% ac mae'r twf hwn yn cynyddu'n gyfatebol â thwf y goeden
- Maent yn cynyddu gwerth safleoedd datblygu o fewn tirweddau aeddfed
- Creu canfyddiad cadarnhaol o 'le' ar gyfer darpar brynwyr eiddo, boed yn brynwyr cartrefi neu'n fuddsoddwyr masnachol
- Cyfrannu at berfformiad gwell ardaloedd manwerthu - mae pobl yn fwy cynhyrchiol ac mae boddhad swydd wedi cynyddu. Mae cwsmeriaid yn barod i dalu mwy am barcio a nwyddau (9-12% ar gyfer rhai nwyddau) mewn ardaloedd siopa sydd wedi'u tirlunio
- Gwella perfformiad amgylcheddol adeiladau drwy leihau costau cynhesu ac oeri, gan felly leihau biliau
- Darparu dewis cost-effeithiol a chynaliadwy i ddarpariaeth isadeiledd 'llwyd' wrth ymdrin â dŵr ffo yn dilyn stormydd
- Lleihau dirywiad arwynebau tarmac ac amllder gwaith i osod arwynebau tarmac newydd drwy gysgodi
- Lleihau costau cynnal a chadw mannau gwyrdd
- Ychwanegu at refeniw twristiaeth a hamdden
- Gwella iechyd a lles poblogaethau lleol ac felly leihau costau gofal iechyd
- Gall y posibilrwydd o gael caniatâd cynllunio gynyddu os gwarchodir coed presennol ac os yw'r cynllun plannu coed newydd yn ddychmygus
- Cynnig sgîl-gynnyrch gwerthfawr e.e. pren, coed tân/sglodion pren, tanwydd adnewyddadwy drwy brysgoedio, ffrwythau (e.e. perllannoedd cymunedol) a chompost/tomwellt dail marw.

### B.2 Manteision Cymdeithasol/Diwylliannol:

- Creu ymdeimlad o le a hunaniaeth leol
- Darparu canolbwyntiau a thirnodau
- Gwneud lles i gymunedau drwy gynyddu balchder a chydlyniant cymdeithasol yn yr ardal leol
- Cael effaith gadarnhaol ar leihau trosedd
- Hyrwyddo lles ysbrydol, oherwydd eu statws, eu cryfder a'u gwydnwch e.e. cysylltu pobl â natur a lleihau iselder a phryder
- Darparu ffynhonnell hamdden, adloniant a mwynhad tawel, gan gynnig cyfleoedd i ddadflino a distraenio a darparu amgylchedd dymunol i deuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd
- Cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddwl pobl e.e. lleihau asthma a chanser y croen a gwella amser gwella i gleifion. Dengys astudiaethau fod asthma'n llai cyffredin ymhlith plant sy'n byw mewn ardaloedd â mwy o goed yn y strydoedd.
- Annog ymarfer corff a allai wrthweithio clefyd y galon a diabetes math 2
- Cynnig dosbarth dysgu awyr agored cyfoethog i bawb, yn enwedig pan fo'n rhan o amgylchedd coediog naturiol
- Mae'n helpu plant i ganolbwyntio yn yr ysgol os gellir gweld coed o'r ystafell ddosbarth

- Rhoi cyswllt â threftadaeth.

### B.3 Manteision Amgylcheddol:

- Gwaredu carbon deuocsid i greu dalfa garbon h.y. helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddal carbon
- Trydarthu, adlewyrchu golau'r haul a darparu cysgod gyda'i gilydd i leihau 'effaith ardal drefol gynnes'
- Gwaredu llwch a gronynnau o'r awyr
- Lleihau sŵn traffig drwy leddfu ac allwyo sŵn
- Lleihau cyflymderau gwyntoedd
- Darparu bwyd a chysgod i fywyd gwyllt ac felly helpu i gynyddu bioamrywiaeth
- Creu cysylltiadau newydd rhwng cynefinoedd mewn trefi â chefn gwlad a chryfhau coridorau bywyd gwyllt sydd eisoes yn bodoli
- Creu tirweddau deniadol, gwyrddach
- Cuddio hyllbethau
- Lleihau effeithiau fflachlifogydd drwy leihau cyfradd dŵr glaw yn cyrraedd y ddaear
- Helpu i wella ansawdd pridd pan gânt eu plannu ar dir anrheithiedig a diraddiedig
- Creu deunydd organig ar wyneb y pridd o'u dail marw a chyda'u gwreiddiau, gan gynyddu athreiddedd pridd sy'n arwain at:
  - Lleihau dŵr ffo oherwydd stormydd. "Mae pob cynnydd o 5% mewn arwynebedd coed yn lleihau dŵr ffo 2%".
  - Llai o erydiad pridd oherwydd dŵr glaw a gwaddodiad mewn nentydd
  - Cynnydd mewn dychweliad dŵr daear sy'n cael ei leihau'n sylweddol gan balmentydd fel arall
  - Symiau llai o gemigion yn cael eu cludo i nentydd
  - Llai o erydiad pridd oherwydd gwyntoedd

### B.4 Manteision Lleol

B.4.1 Er mai Abertawe yw un o'r dinasoedd gwyrddaf yng Nghymru, yn ardal astudiaeth dalgyloch Tawe yr arolwg i-Tree Eco<sup>1</sup> canfu bod ganddi gyfran isel o goed mawr o'i gymharu ag astudiaethau blaenorol a gynhaliwyd yn y DU ac y byddai'n elwa o fwy o goed canolog a mawr. Gallai mwy o goed gael eu plannu ac mae hyd at 24% o le trefol ar gael ar gyfer plannu coed neu lwyni.

B.4.2 Gwerth amcangyfrifedig y 530,000 o goed yn Ardal Astudiaeth Tawe (2014) yn unig yw £1.72 miliwn bob blwyddyn i'r economi leol gan eu bod yn gwneud y canlynol:

- dal oddeutu 252 miliwn o litrau o ddŵr bob blwyddyn, sy'n gyfwerth ag osgoi oddeutu **£333,900** mewn taliadau carthffosiaeth
- Gwaredu oddeutu 136 o dunelli o lygryddion yn yr awyr bob blwyddyn, sy'n werth mwy na **£715,500** mewn costau difrod

---

1



- Gwaredu oddeutu 3,000 o dunelli o garbon o'r atmosffer bob blwyddyn; amcangyfrifir bod y swm hwn o garbon yn werth **£671,000**, a storio oddeutu 102,000 o dunelli o garbon yr amcangyfrifir iddo fod yn werth **£23.1 miliwn**
- Cost amcangyfrifedig i'w hamnewid yw **£234 miliwn**
- Eu gwerth ased yw **£816 miliwn** - gwerthusiad sy'n seiliedig ar amwynder cyhoeddus

## Atodiad C: Cyfeiriadau

1. Cynllun Datblygu Lleol Dinas a Sir Abertawe 2010-2025 (Fersiwn Adnau)  
<http://www.abertawe.gov.uk/cdll>
2. Dinas a Sir Abertawe, Gwarchod Coed ar Safleoedd Datblygu Hydref 2016. <https://www.swansea.gov.uk/treesondevelopmentsites>
3. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/contents>
4. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999  
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/1892>
5. 'TPO's A Guide to the Law and Best Practice'  
[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/14956/tposguide.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/14956/tposguide.pdf)
6. Arweiniad Cynllunio (Cymru). Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 10. Gorchmynion Cadw Coed.  
<https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan10/?skip=1&lang=cy>
7. Coed a warchodir - Coed wedi'u gwarchod: Canllaw i'r drefn cadw coed.  
<https://beta.llyw.cymru/coed-wedi-gwarchod-canllawiau-ar-orchmynion-diogelu-coed>
8. Tree Evaluation Method for Preservation Orders (TEMPO).  
<http://www.flac.uk.com/wp-content/uploads/2014/12/TEMPO-GN.pdf>
9. Cyfoeth Naturiol Cymru: Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru 2016
10. Trees and Design Action Group (TDAG)
  - No Trees No Future (2010)
  - The Canopy (2011)
  - Trees in the Townscape (2012)
  - Trees in the Hard Landscape (2014)

11. Comisiwn Coedwigaeth Lloegr: The Case for Trees in Development and the Urban Environment (2010)
12. CIRIA: The Benefits of Large Species Trees in Urban Landscapes (2012)
13. Prifysgol Manceinion: Adaptation Strategies for Climate Change in the Urban Environment ASSCUE project (2010)
14. Prifysgol Lancaster: Using trees to improve air quality in cities (2005)
15. Trees for Cities: Trees Matter (2005)
  
16. Ymchwil i goedwigoedd ac economi coed (astudiaethau i-Tree Eco):
  - Torbay's Urban Forest (2011)
  - Green Benefits in Victoria Business Improvement District, London (2012)
  - Valuing Wrexham's Urban Forest (2014)
  - Valuing Urban Trees in Glasgow (2015)
  - Valuing London's Urban Forest (2015)
  - Valuing Urban Trees in the Tawe Catchment (2015)
  - Valuing the Urban Trees of Bridgend County Borough (2015)
  
17. Coed Cadw:
  - Greening the Concrete Jungle (2010)
  - Trees or Turf (2011)
  - Urban Air Quality (2012)
  - Trees in Our Towns – their role in managing water quality and quantity (2013)
  - Healthy Trees, Healthy Places (2013)

**Atodiad Ch: Cysylltiadau defnyddiol**

|                                      |   |
|--------------------------------------|---|
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe          | <a href="http://www.abertawe.gov.uk/gcc">http://www.abertawe.gov.uk/gcc</a>   |
| Swyddog Coed DASA                    | 01792 635724 <a href="mailto:ProtectedTrees@abertawe.gov.uk">ProtectedTrees@abertawe.gov.uk</a>   |
| Llywodraeth Cymru                    | <a href="https://gov.wales/topics/planning/policy/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/planning/policy/?skip=1&amp;lang=cy</a>   |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio             | <a href="https://beta.llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio?splash=&amp;_ga=2.146054258.795737174.1545038314-1513083601.1544788476">https://beta.llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio?splash=&amp;_ga=2.146054258.795737174.1545038314-1513083601.1544788476</a> |
| Porth Cynllunio Cymru                | <a href="https://www.planningportal.co.uk/wales_cy/">https://www.planningportal.co.uk/wales_cy/</a>   |
| Cyfoeth Naturiol Cymru               | <a href="https://naturalresources.wales/?lang=cy">https://naturalresources.wales/?lang=cy</a>   |
| Ancient Tree Forum                   | <a href="http://www.woodland-trust.org.uk/ancient-tree-forum">www.woodland-trust.org.uk/ancient-tree-forum</a>  |
| The Arboricultural Association (AA)  | <a href="http://www.trees.org.uk">www.trees.org.uk</a>  |
| Royal Forestry Society (RFS)         | <a href="http://www.rfs.org.uk">www.rfs.org.uk</a>  |
| Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol | <a href="http://www.rhs.org.uk">www.rhs.org.uk</a>  |
| Tree Advice Trust                    | <a href="http://www.treehelp.info/">http://www.treehelp.info/</a>   |
| The Tree Council                     | <a href="http://www.treecouncil.org.uk">www.treecouncil.org.uk</a>  |
| Coed Cadw                            | <a href="http://www.woodlandtrust.org.uk/en/Pages/default.aspx">http://www.woodlandtrust.org.uk/en/Pages/default.aspx</a>   |